

Adroddiad Blynyddol Fforwm Derbyn 2016 - 2017

Awdurdod Derbyn: Cyngor Dinas Casnewydd

Ysgrifennydd y Fforwm: Swyddog Craffu a Chomisiynu Addysg **Manylion cyswllt:** 01633 235236

Cyfeiriad: Tîm Derbyn Ysgolion, Adran Addysg, Canolfan Ddinesig, Casnewydd. NP20 4UR

Aelodaeth a phresenoldeb y Fforwm

Enw	Swydd	Amser a wasanaethwyd fel Aelod o'r Fforwm *	Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)
1. Cyfarwyddwr Ysgolion yr Esgobaeth Gatholig	Cadeirydd	Ers Rhag '08 (ail-etholwyd Tach '12)	RC
2. Pennaeth Cynorthwyol Addysg, Adnoddau a Chynllunio	Is-gadeirydd	Ers Mawrth '07 (Rôl sy'n gyfrifol am swyddogaethau Derbyn)	ALI
3. Aelod Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Meh '16	ALI
4. Prif Swyddog Addysg	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Gorff '06 (Rôl sy'n gyfrifol am swyddogaethau Derbyn)	ALI
5. Rheolwr Datblygu Gwasanaeth	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Rhag '09 (Rôl sy'n gyfrifol am swyddogaethau Derbyn)	ALI
6. Rheolwr Derbyniadau ac Apeliadau Ysgol	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Tach '12 (Rôl sy'n gyfrifol am swyddogaethau Derbyn)	ALI
7. Cyfarwyddwr Addysg, Esgobaeth Anglicanaidd Trefynwy	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Mawrth '16	EyNg
8. Pennaeth, Ysgol Gynradd Mount Pleasant	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Mawrth '16	C/GR
9. Pennaeth, Ysgol Gynradd Pillgwenlli	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Rhag '08 (ail-etholwyd Tach'12)	C/GR
10. Pennaeth, Ysgol John Frost	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Rhag '08 (ail-etholwyd Mawrth '16)	C/GR
11. Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseph	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Tach '10 (ail-etholwyd Rhag '14)	Y/GG
12. Pennaeth, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Gabriel	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Mawrth '16	Y/GG
13. Rhiant Lywodraethwr, Ysgol Gynradd Gaer	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Meh '15	RhL
14. Rhiant Lywodraethwr, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Meh '15	RhL
15. Rhiant Lywodraethwr, Ysgol Gynradd Sant Andrew	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Meh '15	RhL

16. Pennaeth Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Rhag '14	C/CYM
17. Rheolwr Busnes Blynnyddoedd Cynnar	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Mawrth '13	C/CYM
18. Rheolwr AAA	Aelod sy'n Pleidleisio	Ers Mawrth '15	C/CYM
19. Cydlynnydd Addysg - Plant sy'n Derbyn Gofal	Aelod nad yw'n Pleidleisio	Ers Meh '15	ALI/LAC

* Os am fwy na 4 blynedd – cynhwysir hefyd y dyddiad ailethol.

Acronymau Aelodau Craidd		
Aelodau wedi eu henwebu gan	Aelodaeth Graidd	Acronym
ALI - unrhyw aelod neu swyddog yr awdurdod	1 i 5	ALI, ALI/AAA, ALI/LAC
Cynrychiolwyr Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru	1 i 3	EyNg
Cynrychiolwyr Esgobaethol Catholig	1 i 3	RC
Ysgolion - cymunedol a gwirfoddol a reolir	1 i 3	C/GR
Ysgolion - sylfaen	1 i 3	Y/S
Ysgolion - gwirfoddol a gynorthwyir	1 i 3	Y/GG
Cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr	1 i 3	RhL
Cynrychiolwyr y gymuned leol	Hyd at 3	C/CYM

Dyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb

	Dyddiad	Nifer Aelodau'r Fforwm yn bresennol - yn ôl categori
Cyfarfod 1af	22 Tachwedd 2016	10(1*RC / 2*ALI / 2*C/CYM / 2*C/GR / 2*Y/GG / 1*ALI/LAC)
2il gyfarfod	22 Mawrth 2017	8(1*RC / 3*ALI / 1*C/CYM / 2*C/GR / 1*Y/GG)
3ydd cyfarfod	27 Mehefin 2017	8 (1*RC / 3*ALI / 1*C/CYM / 2*C/GR / 1*Y/GG)

Cadarnhewch p'un a yw awdurdodau derbyn o fewn ardal y fforwm wedi cwblhau'r broses ymgynghori a phenderfynu ar drefniadau derbyn o fewn yr amserlenni sy'n ofynnol gan Reoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [gan gynnwys ymgynghori ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfyniad ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno].

Os nad yw unrhyw awdurdod derbyn wedi bodloni'r amserlenni, rhowch fanylion yma.

Faint o ddogfennau ymgynghori a welwyd gennych oddi wrth yr awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?

Pa drefniadau derbyn sydd wedi'u sefydlu i wasanaethu buddiannau plant sy'n agored i niwed? A ydynt wedi bod yn llwyddiannus? Pa drefniadau eraill yr ydych wedi'u nodi i gefnogi'r plant hyn?

Mae'r Cyngor hwn wedi ymrwymo i wireddu buddiannau pob plentyn, yn enwedig y rheini a nodwyd fel rhai sy'n agored i niwed. Fel yn y blynyddoedd blaenorol gellir dangos hyn fel a ganlyn:

- Rhoddir blaenoriaeth i dderbyn Plant sy'n Derbyn Gofal, a Phlant sy'n Derbyn Gofal blaenorol, ac mae hyn yn cynnwys derbyn disgyblion sy'n derbyn gofal i'r lleoliad ysgol y tybir sydd fwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion, hyd yn oed mewn achosion lle mae'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer y grŵp blwyddyn wedi ei gyrraedd, neu y rhagorwyd arno; ac mae'r Cydlynedd Addysg LAC bellach yn eistedd ar y Fforwm Derbyn mewn capasiti heb bleidlais;
- Mae'r Tîm Derbyniadau Ysgol a'r Tîm Anghenion Addysgol Arbennig yn parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau priodoldeb lleoliadau ar gyfer plant sydd â datganiadau AAA ac maent bellach wedi'u lleoli yn yr un swyddfa. Rhoddir blaenoriaeth i'r plant hynny yr enwir ysgol benodol iddynt yn eu datganiadau. Unwaith eto mae hyn yn cynnwys derbyn y disgyblion hyn i leoliad yr ysgol y tybir sydd fwyaf priodol i gwrdd â'u hanghenion, hyd yn oed mewn achosion lle mae'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer y grŵp blwyddyn wedi ei gyrraedd, neu y rhagorwyd arno. Mae'r Rheolwr AAA yn eistedd ar y Fforwm Derbyn;
- Mae meini prawf gordanysgrifio'r Cyngor yn cyfeirio'n benodol at blant y gwneir cais iddynt ar sail feddygol, a rhoddir blaenoriaeth i blant o'r fath o fewn y categorïau dalgylchoedd ac allan o ddalgylchoedd;
- Cadwyd cysylltiadau â'r sector nas cynhelir a darpariaeth Dechrau'n Deg i gynorthwyo gyda threfniadau pontio i ddsbarthiadau meithrin a Derbyn, gan leihau nifer y ceisiadau hwyr a thrwy hynny gynyddu'r tebygolrwydd o wneud cais llwyddiannus. Mae'r Rheolwr Busnes Blynyddoedd Cynnar yn eistedd ar y Fforwm Derbyn;
- Mae perthynas waith agos gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg sy'n cynorthwyo i sicrhau ceisiadau hwyr yn y prosesau cyfnod a throsglwyddo yn ystod y flwyddyn ac i olrhain y disgyblion hynny nad ydynt wedi derbyn y lle ysgol a gynigiwyd iddynt;
- Pennir bod plant y Lluedd Arfog/ teuluoedd Gweision y Goron sy'n adleoli i Gasnewydd yn bodloni'r meini prawf preswyllo ar gyfer yr ysgol a ffefrir os oes tystiolaeth briodol o'u cais, gan sicrhau nad oes anfantais; mae hyn yn cynnwys derbyn plant lluedd arfog sy'n dychwelyd neu'n gwasanaethu fel disgyblion i'r lleoliad ysgol y tybir sydd fwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion, hyd yn oed mewn achosion lle mae'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer y grŵp blwyddyn wedi ei gyrraedd, neu y rhagorwyd arno;
- Mae protocol lleol ar waith i hwyluso mynediad plant sy'n cael eu cadw dros dro yn Lloches Trais Domestig y Ddinas i'r ysgolion dalgylch cynradd ac uwchradd perthnasol, i sicrhau bod eu hysgolion mor ddi-dor â phosib;
- Mae cydberthnasau gwaith agos gydag Asiantaethau Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Addysg Gwent (GEMS), yn cynorthwyo i blant gael derbyniad cyflym o deuluoedd SIY i'w hysgolion agosaf a mwyaf priodol. Mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth iaith gartref sydd ar gael i blant a theuluoedd sydd newydd gyrraedd y Ddinas er mwyn hwyluso'r broses dderbyn ac, os oes angen, darperir cefnogaeth a chyfieithiad yn ystod apelïadau. Mae Pennaeth GEMS yn eistedd ar y Fforwm Derbyn;
- Mae aelod o'r Tîm Derbyn Ysgolion yn bartner allweddol yn y panel Rheoli Symudiadau wythnosol i roi cyngor a chefnogaeth mewn perthynas â disgyblion "anodd eu gosod" a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol.

Pa mor dda y mae'r gweithdrefnau derbyn yn y flwyddyn cytunedig yn gweithio?

Faint o blant sydd wedi'u derbyn i bob ysgol o dan y gweithdrefnau?

A ydych wedi nodi cynnydd yn y niferoedd ar gyfer derbyniadau yn ystod y flwyddyn, os felly pa gamau a nodwyd i ymdrin â'r mater?

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl geisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn yn cael eu prosesu a'u pennu o fewn yr amserlenni a nodir yn y Cod statudol, ac yn gyffredinol mae'n gallu cyflawni hyn. Unwaith eto, fodd bynnag, cafwyd achlysuron pan na fu hyn yn bosib. Gellir priodoli hyn yn rhannol i geisiadau mewn perthynas â disgyblion oedran ysgol uwchradd lle mae angen ystyried ffactorau megis priodoldeb dewisiadau cwricwlaidd a hanes ysgol y plentyn. Fodd bynnag, mae'n anochel y cyfeirir rhai achosion at y panel Rheoli Symudiadau wythnosol, sydd, er lles gorau'r plentyn, hefyd yn cael ei ddefnyddio i drafod priodoldeb lleoliad y disgyblion a sicrhau bod y gefnogaeth briodol ar gael ar fynediad. Ar adegau eraill, mae'r nifer fawr o geisiadau a dderbynnir gan y Tîm Derbyn Ysgolion, ynghyd â'r ganran isel iawn o leoedd dros ben ar draws y Ddinas, yn golygu oedi mewn cwblhau ceisiadau tra bod y tîm yn gweithio gyda'r rhieni a chydweithwyr i sicrhau ysgol arall briodol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17,

- Derbyniwyd 229 o geisiadau gan ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo i mewn i, neu rhwng, ysgolion uwchradd cymunedol Casnewydd, a chafodd 167 ohonynt gynnig eu dewis cyntaf, a;
- Derbyniwyd 994 o geisiadau gan ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo i mewn i, neu rhwng, ysgolion cynradd cymunedol Casnewydd (gan gynnwys darpariaeth feithrin), a chafodd 597 ohonynt gynnig eu dewis cyntaf;
- Cyflwynwyd 56% o'r holl geisiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn oherwydd bod y teulu wedi symud i ardal Casnewydd.

Parhaodd y Cyngor i dderbyn nifer uchel o geisiadau yn ystod y flwyddyn dros y 4 neu 5 mlynedd diwethaf, sydd, ynghyd â'r pwysau ar leoedd ysgolion cynradd, yn her sylweddol. Mae'r Cyngor yn ceisio ymdrin â mater capasiti trwy gytundebau cynllunio Adran 106, sydd wedi/a fydd yn hwyluso agor nifer o ysgolion cynradd newydd; a thrwy Raglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Arweiniodd y galw cynyddol am leoedd mewn ysgolion cynradd at argymhelliad gan grŵp Cynllunio Lleoedd Mewn Ysgolion (POSP) Casnewydd yn nhymor yr haf 2016 y dylid cynnal adolygiad asesu capasiti llawn ar draws ystad yr ysgolion cynradd yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17. Cynhaliwyd yr adolygiad blaenorol o ddarpariaeth Dinas-eang yn 2011. Nododd yr ymarferiad hwn fod y PANs a ddefnyddir ar hyn o bryd yn gywir, ac felly cadarnhawyd bod yr ystad ysgol gynradd at ei gilydd eisoes yn cael ei defnyddio i'r eithaf posib. Fodd bynnag, roedd wyth ysgol lle gallai'r PAN cyfredol gael ei gynyddu, ac yn dilyn hynny cafwyd trafodaethau gyda'r Penaethiaid perthnasol i gytuno ar y ffordd fwyaf priodol i hwyluso hynny.

Ochr yn ochr â hyn, gweithredwyd rhaglen Ad-drefnu Ysgolion 2016/17 yn llawn fel y'i cynlluniwyd ar 1 Medi 2017 ac roedd yn cynnwys agor ysgol gynradd newydd (wedi'i sefydlu ar sail ysgol sy'n tyfu) a chyfuno ysgol gynradd fabanod ac iau gyda chynnydd mewn capasiti ar draws y safle ysgol sengl gyfan.

Pa faterion mynediad allweddol a nodwyd ar gyfer yr ardal?

Beth ydynt a sut y mae'r fforwm wedi ymdrin â hwy?

- Mae poblogaeth Casnewydd yn cynyddu, a gyda hynny, nifer y plant oedran ysgol (bu cynnydd o 1,600 o blant rhwng 2011-2016). Erbyn 2022 mae rhagolygon yn nodi y bydd 15,261 o blant ysgol gynradd a 12,662 o blant ysgol uwchradd yn y ddinas, sy'n cynrychioli 2,800 o blant ychwanegol o'i gymharu â 2017.
- O ganlyniad, mae'r nifer o geisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn yn parhau i fod yn uchel iawn fel y dangosir yn y tabl canlynol ac mae hyn, ynghyd â'r nifer isel o leoedd gwag mewn ysgolion, yn rhoi pwysau sylweddol ar y Tîm Derbyn Ysgolion o fewn cylch gorchwyl y cod statudol.

<i>Blwyddyn academaidd</i>	<i>Nifer ceisiadau a dderbyniwyd</i>	<i>% yn symud i'r ALL</i>
2014/15	1455	44
2015/16	1389	57
2016/17	1343	56
2017/18 (hyd yma)	722	44

- O ganlyniad, mae'r pwysau ar gyfer lleoedd y tu allan i'r rownd derbyniadau arferol yn ddifrifol mewn nifer o leoliadau daearyddol ac nid oes gan rhai ysgolion/clystyrau fawr o leoedd ar gael, fel y dangosir yn **Nhablau A a B** ar ddiwedd yr adroddiad.
- Effaith ymledol hyn yw plant sy'n teithio ar draws y ddinas i'r ysgol oherwydd angen yn hytrach na dewis, ac mae rhannu brodyr a chwiorydd yn bryder arbennig.
- Mae nifer uchel y disgyblion Ceiswyr Lloches / SYI sy'n cyrraedd y Ddinas yn rhoi pwysau ar ysgolion i ddelio â'r disgyblion hyn, yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud â disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a 3 a allai fod heb fawr ddim addysg neu brofiad blaenorol o fynd i'r ysgol.
- Lle na all y Tîm Derbyn Ysgolion gynnwys dewis rhieni oherwydd y diffyg lleoedd sydd ar gael, gellir gweld effaith ymledol sylweddol gan gynnwys darpariaeth gynyddol o gludiant rhwng y cartref a'r ysgol a'r costau cysylltiedig, anawsterau i rieni a allai fod â phlant o oedran tebyg mewn dwy neu fwy o ysgolion, llai o bresenoldeb, a phrydlondeb gwael. Mae'r Fforwm Derbyn yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa hon ac yn cynnig cyngor ar y ffyrdd awgrymedig ymlaen.
- Mae nifer y ceisiadau trosglwyddo hwyr yn parhau i fod yn broblem, gan achosi oedi wrth geisio prosesu a thrwy hynny gynyddu'r posibilrwydd o wrthod disgyblion yn eu dewis cyntaf neu ysgolion dalgylch. Mae hyn yn achosi ansicrwydd i ddisgyblion, rhieni ac ysgolion yn ystod y broses drosglwyddo. Ceisiodd y Cyngor ymdrin â hyn drwy gyhoeddusrwydd, hysbysebu a gweithio gydag ysgolion gyda chymorth y Fforwm Derbyn.
- Oherwydd y nifer o geisiadau trosglwyddo hwyr, mae nifer y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn a'r pwysau ar leoedd ysgolion cynradd, a nifer o apeliadau derbyn a gyflwynwyd hefyd yn uchel. Mae hyn yn rhoi pwysau ar staff o ran eu gallu i baratoi ar gyfer a chefnogi'r achosion hyn, a gall paneli apeliadau gadarnhau achos rhagfarn rhieni yn aml ar y sail bod yr ysgol arall a gynigir yn bell o'r cartref neu'n methu â chynnwys holl frodyr a chwiorydd y teulu.

Pa ddulliau y mae'r Fforwm wedi eu defnyddio i ddsbarthu unrhyw gyngor neu benderfyniadau y mae wedi eu gwneud?

Cyhoeddir cofnodion holl gyfarfodydd y Fforwm Derbyn, unwaith y cytunwyd arnynt, ar wefan y Cyngor, fel y gwneir gydag adroddiadau blynyddol y Fforwm Derbyn. Rhennir agendâu gyda Phenaethiaid cyn cyfarfodydd er mwyn eu galluogi i godi unrhyw bryderon gyda'u cydweithwyr cynrychioliadol enwebedig.

Lle bo hynny'n briodol, ac yn dilyn eitemau trafod mewn cyfarfodydd, bydd y Cyngor yn ysgrifennu at Benaethiaid ar faterion penodol ar gais aelodau'r Fforwm Derbyn.

Anogir aelodau'r Fforwm i rannu gwybodaeth a drafodwyd gyda'r grwpiau y maent wedi'u henwebu i'w cynrychioli.

Dyddiad Cyhoeddi cyngor y Fforwm ar Wefan Awdurdodau Derbyn:

Cyhoeddir y cofnodion unwaith y cytunwyd arnynt fel cofnod cywir yng nghyfarfod nesaf y Fforwm.

Cyhoeddir adroddiadau blynyddol yn dilyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Please also provide the relevant link:

[Fforwm Derbyn Ysgolion Casnewydd](#)

Llofnod:



Rachel Hurford

(Ysgrifennydd y Fforwm)

Dyddiad:

30 Tachwedd 2017

Dychwelwch yr adroddiad wedi'i gwblhau erbyn 30 Tachwedd 2017 i:

SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk

Derbyniadau ac Apeliadau Ysgol - Medi 2017 Cylch Derbyn Cyffredin

Enw'r Ysgol	Nifer derbyn	Nifer y dewisiadau	Nifer y dewisiadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau	Nifer yr apeliadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau a gynhelir ar ôl 30 diwrnod	Nifer o ddewisiadau rhieni a fodlonir 1^{af}, 2^{il} neu 3^{ydd}
Ysgol Gynradd Alway	49	51	48				48
Ysgol Gynradd Caerleon Lodge Hill	45	60	39				39
Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Charles Williams	75	82	75	2	1		75
Ysgol Gynradd Clytha	30	73	30	2	0		30
Ysgol Gynradd Crindau	45	53	45				45
Ysgol Gynradd Eveswell	60	145	60	7	0		60
Ysgol Gynradd Gaer	60	79	60				60
Ysgol Gynradd Glan Usk	90	157	90	10	0		90
Ysgol Gynradd Glasllwch	30	86	30	5	1		30
Ysgol Gynradd High Cross	30	125	30	7	0		30
Ysgol Gynradd Jubilee Park	15	50	15	4	4		15
Ysgol Gynradd Langstone	45	66	45	1	0		45
Ysgol Gynradd Llanmartin	30	30	24				24
Ysgol Gynradd Llyswry	90	96	79				77
Ysgol Gynradd Maesglas	38	42	32				31
Ysgol Gynradd Maindee	70	70	67				61
Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Malpas	54	59	50				47
Ysgol Gynradd Malpas Court	30	40	30	1	0		30
Ysgol Gynradd Malpas Park	30	68	30	7	0		30

Ysgol Gynradd Marshfield	60	66	57				57
Ysgol Gynradd Millbrook	45	53	38				37
Ysgol Gynradd Milton	90	64	62				62
Ysgol Gynradd Monnow	60	45	40				39
Ysgol Gynradd Mount Pleasant	30	93	30	2	0		30
Ysgol Gynradd Pentre-poeth	60	81	56				54
Ysgol Gynradd Pillgwenlli	78	78	70				69
Ysgol Gynradd Ringland	36	36	30				29
Ysgol Gynradd Rogerstone	60	114	60	5	0		60
Ysgol Gynradd Somerton	29	18	16				14
Ysgol Gynradd St Andrew	90	127	90	3	0		90
Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant	30	32	30				30
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Gabriel	26	34	26				26
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseph	30	38	30	2	2		30
Ysgol Gynradd Sant Julian	90	131	90	2	0	1	90
Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair	60	54	49				49
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Mihangel	30	33	28				28
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig	30	42	30				30
Ysgol Gynradd Sant Gwynllyw	45	55	45				43
Ysgol Gynradd Tredegar Park	60	63	58				55
Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon	30	33	22				22
Ysgol Gymraeg Casnewydd	52	53	46				46
Ysgol Gymraeg Ifor Hael	30	34	20				20
Basaleg	270	374	270	6	1	1	270
Ysgol Gyfun Caerllion	248	330	247				247

Ysgol Uwchradd Llanwern	260	155	136				135
Ysgol Uwchradd Llyswyry	212	149	124				124
Ysgol Uwchradd Casnewydd	191	213	191				191
Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseph	240	298	240	6	0		240
Sant Julian	242	306	242	2	0		242
Ysgol Uwchradd John Frost	223	227	192				184
Ysgol Gyfun Gwent Is Coed	120	78	77				77
Cyfanswm	4073*	4939	3621	68	9	2	3587

* Mae'r nifer wedi gostwng o adroddiad y flwyddyn flaenorol oherwydd cyfuno ein 3 ysgol fabanod ac iau sy'n weddill, sydd bellach wedi'u cynnwys yn y ffigyrau ar gyfer 2017.

A.Nifer y lleoedd gwag fesul rhanbarth:

B.Nifer y lleoedd gwag fesul clwstwr:

%			<i>Uwchradd</i>	
	<i>CS</i>	<i>CC</i>	<i>CS</i>	<i>CC</i>
<i>Dwyrain</i>	5	13	13	-
<i>Gorllewin</i>	2	20	1	22

<i>Clwstwr</i>	<i>%</i>	<i>% Uwchradd</i>
<i>Basaleg</i>	<i>1</i>	<i>0</i>
<i>Catholig</i>	<i>2</i>	<i>0</i>
<i>John Frost</i>	<i>3</i>	<i>7</i>
<i>Caerleon</i>	<i>4</i>	<i>4</i>
<i>Sant Julian</i>	<i>4</i>	<i>1</i>
<i>Gwent Is Coed (cyfrwng Cymraeg)</i>	<i>7</i>	<i>22</i>
<i>Llyswry</i>	<i>8</i>	<i>41</i>
<i>Uwchradd Casnewydd</i>	<i>10</i>	<i>1</i>
<i>Llanwern</i>	<i>19</i>	<i>40</i>
<i>Lleoedd gwag cyffredinol</i>	<i>7</i>	<i>12</i>